



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd

Cynllun ar gyfer addasu i'r
newid yn yr hinsawdd

Fframwaith Monitro
a Gwerthuso

GWYBOD | PARATOI | ADDASU
Llywodraeth Cymru 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Rhan 1 – Strwythur llywodraethu ar gyfer monitro'r modd y caiff <i>Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd ei gyflawni</i>	3
Rhan 2 – Strwythur adrodd ar gyfer gwerthuso'r modd y caiff <i>Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd ei gyflawni</i>	5
Rhan 3 – Y Fframwaith Monitro a Gwerthuso ar gyfer <i>Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd</i>	7

Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso hwn wedi'i ddatblygu i ategu'r gwaith o gyflawni *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*, sef ein cynllun ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Fframwaith yn cynnwys strwythur llywodraethu a fydd yn ei gwneud yn bosibl craffu ar y modd y caiff y cynllun ei gyflawni, ynghyd â'r mesurau, yr allbynnau, y deilliannau a'r amserlenni a fydd yn llywio'r modd y byddwn yn cwblhau'r camau gweithredu arfaethedig.

Methodoleg

Cafodd y Fframwaith hwn ei ddatblygu ar y cyd â Netherwood Sustainable Futures, ac mae'n dilyn argymhellion a wnaed mewn astudiaethau ynghylch gwerthuso gwaith addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a gynhaliwyd gan Power et al. (2018) a Russ et al. (2018) ac a gomisiynwyd gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Un o elfennau craidd y gwaith hwn, ar gyfer pob un o'r camau gweithredu sydd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*, oedd defnyddio'r dull 'theori newid' fel y caiff ei egluro yn Llyfr Magenta¹ Trysorlys Ei Mawrhydi, er mwyn deall beth oedd bwriad pob cam gweithredu – a phenderfynu felly ar y ffordd orau o fonitro a gwerthuso cynnydd. Cafodd y cwestiynau canlynol eu defnyddio i ddeall pa newid a fwriadwyd drwy bob cam gweithredu:

- › beth yw allbynnau'r cam gweithredu arfaethedig?
- › beth yw'r deilliant/effaith/newid a ddymunir o ganlyniad i'r cam gweithredu?
- › sut y mae'r cam gweithredu yn lleihau'r risg/sefyllfa o fod yn agored i niwed o ran yr hinsawdd?

- › pa ddangosydd, gwaelodlin, naratif neu fesur allai fod orau i fonitro a gwerthuso cynnydd ar gyfer pob un o'r camau gweithredu sydd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*?

Roedd y modd y cafodd y Fframwaith Monitro a Gwerthuso ei bennu'n cynnwys trafod ag arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, dadansoddi dogfennau, ymchwilio ar-lein, cael cyngor gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a chael cyngor gan grŵp arbenigol allanol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr ar gyfer pob un o'r 8 thema sydd yn y cynllun.

Bydd yn bwysig monitro a gwerthuso'r newid a ysgogir gan y cam gweithredu sydd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* yn ogystal â monitro a gwerthuso'r modd y caiff cynnyrch megis pecynnau cymorth, gwaith mapio a chanllawiau eu darparu. Fodd bynnag, gwyddys fod monitro a gwerthuso gwaith addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn broblemus. Bydd amser hir wedi mynd heibio cyn y bydd llawer o effeithiau disgwylidig y newid yn yr hinsawdd a'r risgiau a ddaw yn eu sgil yn digwydd, mae llawer iawn o ansicrwydd yn perthyn iddynt ac mae'n bosibl na fyddant byth yn digwydd. Mewn llawer o achosion, un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y problemau a wynebwn yw'r newid yn yr hinsawdd ac, oherwydd hynny, gall fod yn anodd mesur y modd y dylid priodoli mesurau addasu er mwyn gwneud cynnydd.

Mae hynny'n golygu bod yn rhaid cael dull ansoddol yn bennaf o gofnodi cynnydd o safbwynt gweithredu *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*. Felly, mae dull y Fframwaith hwn yn ddull ansoddol yn bennaf sydd wedi'i seilio ar ddatblygu:

¹ Llyfr Magenta ('The Magenta Book') – canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch beth y dylid ei ystyried wrth ddylunio gwerthusiad. Cyhoeddwyd 27 Ebrill 2011.

- › hanesion am addasu;
- › tystiolaeth o newid; ac
- › astudiaethau achos o ymarfer sy'n lleihau'r risg a'r sefyllfa o fod yn agored i niwed o ran yr hinsawdd.

Mae hefyd yn bwysig nodi mai bwriad mabwysiadu'r dull hwn o weithredu oedd osgoi pennu metrigau, dangosyddion ac ystadegau allweddol i gamau gweithredu er mwyn monitro a gwerthuso cynnydd, oherwydd prin y maent yn berthnasol. Mewn llawer o strategaethau, gall rhestru'r metrigau hyn fod yn waith diystyr yn aml nad yw'n taflu fawr ddim goleuni ar y modd y caiff y strategaethau eu gweithredu. Er hynny, mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn ystyried defnyddio dangosyddion meintiol os yw'r cam gweithredu'n dylanwadu mewn modd amlwg ar y dangosydd ac os oes adnoddau ar gael i'w mesur. At hynny, bydd y cyfuniad o ddangosyddion ansoddol a meintiol yn cael ei ddefnyddio i ddangos sut y caiff gwaith addasu ei briodoli i risgiau aml-achos cymhleth.

Mantais y dull hwn o weithredu yw bod modd i allbynnau'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso gael eu defnyddio i rannu gwybodaeth am waith addasu, adeiladu capasiti a lledaenu arferion addasu, yn ogystal â monitro a gwerthuso cynnydd. Ceir cyfle i ddefnyddio'r dull gweithredu hwn dros gyfnod o 5 mlynedd i gasglu a chyfnwid gwybodaeth ac i adeiladu capasiti o ran camau addasu yn Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner. Y rhesymeg y tu ôl i'r dull gweithredu hwn yw bod angen i'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso ein galluogi i ddeall sut y mae'r cam gweithredu wedi sicrhau newid. Dylid nodi bod dangosyddion o'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a DEFRA a dangosyddion cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried yn rhan o'r Fframwaith.

Bydd llwyddiant y Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn cael ei bennu drwy sefydlu trefniadau llywodraethu mewnol ac allanol o amgylch y cynllun a'r Fframwaith ei hun. Felly, yn ogystal â'r Fframwaith a ddisgrifir yn rhan 3 isod, caiff strwythur llywodraethu ei egluro'n gyntaf yn rhan 1.



Rhan 1:

**Strwythur llywodraethu
ar gyfer monitro'r modd
y caiff Ffyniant i Bawb:
Cymru sy'n Effro i'r
Hinsawdd ei gyflawni**

Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir ynghylch Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu sydd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r adran hon yn egluro'r prosesau ar gyfer llywodraethu gwaith addasu yng Nghymru.

Monitro a Llywodraethu

Cam 1.

Wrth i gamau gweithredu dan *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* gael eu cyflawni, mae swyddogion polisi (Llywodraeth Cymru) a phartneriaid cyflawni allanol yn casglu tystiolaeth fel yr eglurir yn y Fframwaith Monitro a Gwerthuso.

Cyfrifoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni allanol fydd cyflawni'r broses o gasglu tystiolaeth o gynnydd. Mae'r dangosyddion a nodir yn rhan 3 y ddogfen hon yn egluro'r disgwyliadau ynghylch pa dystiolaeth ddylai gael ei chyflwyno.

Cam 2.

Caiff y dystiolaeth a gesglir o gam 1 uchod ei throsglwyddo i'r arweinwyr cyflawni perthnasol sy'n cynrychioli sectorau ym Mwrdd Llywodraethu Portffolio Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd hwnnw yn cyfarfod unwaith bob 8 wythnos i drafod cynnydd o safbwynt cyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* ac yng nghynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*.

Cam 3.

Yn ei dro mae Bwrdd Llywodraethu'r Portffolio Newid yn yr Hinsawdd yn adrodd wrth bywllgor pwnc y Senedd ar y Newid yn yr Hinsawdd ac wrth Gabinet Llywodraeth Cymru.

Cam 4.

Ar ôl pob blwyddyn, mae Uwch-gynghorydd Llywodraeth Cymru ar Gydnerthedd o ran Newid yn yr Hinsawdd yn casglu'r dystiolaeth o'r trafodaethau a nodwyd yn y camau uchod ac yn paratoi'r dystiolaeth ar gyfer y broses

adrodd flynyddol, gan ddefnyddio'r fframwaith a ddisgrifir yn rhan 2 a rhan 3 y ddogfen hon.

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu sydd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*, bydd grwpiau cyflawni mewnol ac allanol yn cael eu sefydlu fel y nodir isod.

Rolau'r Grŵp Mewnol Craidd ar Addasu

- › Darparu arbenigedd o ran polisi.
- › Trafod dull cydweithredol o gyflawni'r camau gweithredu a'r polisiau a ddatganwyd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* os nodir mai Llywodraeth Cymru yw'r sefydliad arweiniol.
- › Dehongli risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg, a'r hyn y maent yn ei olygu i Gymru.
- › Trafod camau gweithredu newydd posibl er mwyn hybu gwaith addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru wrth ymateb i risgiau newydd, risgiau sy'n dod i'r amlwg a thystiolaeth.

Rolau'r Grŵp Rhanddeiliaid Allanol ar Addasu

Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Allanol ar Addasu yn gweithredu fel fforwm ac yn creu cyfle i bartneriaid cyflawni allanol – a nodwyd yn *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* – wella cydnerthedd Cymru o ran y newid yn yr hinsawdd, o safbwynt sydd y tu hwnt i safbwynt Llywodraeth Cymru.

- › Ymgysylltu a chydweithredu ynghylch materion sy'n ymwneud â risg yng Nghymru o ran yr hinsawdd, sy'n berthnasol i fwy nag un rhanddeiliad ac nad ydynt wedi cael sylw eto.
- › Rhannu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf ynghylch risg o ran yr hinsawdd ac ynghylch gwaith addasu.
- › Rhoi adborth i'r Cadeirydd ynghylch cynnydd allanol o ran cyflawni.
- › Awgrymu syniadau i'w hystyried gan Fwrdd Llywodraethu Portffolio Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru.



Rhan 2:

**Strwythur adrodd ar
gyfer gwerthuso'r modd
y caiff Ffyniant i Bawb:
Cymru sy'n Effro i'r
Hinsawdd ei gyflawni**

Yn dilyn cam 3 yn rhan 1 uchod, bydd y dystiolaeth a ddaw i law yn rhan o broses adrodd.

Adrodd a Gwerthuso

1. Caiff adroddiad drafft ei gyflwyno i Fwrdd Llywodraethu'r Portffolio Newid yn yr Hinsawdd er mwyn trafod deilliannau cyfarfodydd llywodraethu. Caiff drafft terfynol ei gwblhau ar ôl cael sylwadau yn ystod y trafodaethau hynys.
2. Yn dibynnu ar ba flwyddyn y cwblheir yr adroddiad, caiff y broses ganlynol ei dilyn:
 - a. **Blwyddyn un.** Caiff yr adroddiad ei anfon at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig er gwybodaeth.
 - b. **Blwyddyn dau.** Caiff yr adroddiad ei anfon at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'w gymeradwyo er mwyn ei gyhoeddi.

c. **Blwyddyn tri.** Caiff yr adroddiad ei anfon at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig er gwybodaeth.

ch. **Blwyddyn pedwar.** Caiff adroddiad allanol ei gomisiynu a'i ddatblygu er mwyn ei gyhoeddi. Ochr yn ochr â'r Aseiad nesaf o Risgiau yn Sgil y Newid yn yr Hinsawdd, bydd yr adroddiad allanol a ddaw i law yn helpu i nodi'r newidiadau sy'n angenrheidiol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun nesaf Cymru ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd y prosesau llywodraethu ac adrodd yn llywio unrhyw gamau gweithredu ychwanegol ac arfaethedig sydd i'w hychwanegu at *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* er mwyn gallu parhau i wneud cynnydd o safbwynt addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.



Rhan 3:

**Y Fframwaith Monitro
a Gwerthuso ar gyfer
Ffyniant i Bawb: Cymru
sy'n Effro i'r Hinsawdd**

Noder bod yr is-gamau a ddangosir mewn print **trwm** yn ymwneud â'r pedwar maes ffocws gyda Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd. Mae'r holl is-gamau eraill yn cyfeirio'n ôl at y camau gweithredu perthnasol yn yr atodiad technegol².

Cynnwys

Mynd Ati Mewn Ffordd Strategol (ST1 – ST4)	9
Natur Sy'n Gallu Addasu A'r Economi Wledig (AN1 – AN7)	12
Gwarchod Ein Harfordiroedd A'n Moroedd (MC1 – MC4)	19
Cadw'n Iach (SH1 – SH5)	23
Cartrefi A Llefydd Diogel (HP1 – HP5)	26
Gofalu Am Yr Amgylchedd Hanesyddol (HE1 – HE4)	30
Busnesau Llwyddiannus (SB1 – SB2)	34
Seilwaith A Thrafnidiaeth Gydnerth (IT1 – IT3)	35

² https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd?_ga=2.152890047.760516545.1591012759-888934002.1563444387

Mynd Ati Mewn Ffordd Strategol

ST1	Adolygu a diweddarau ein dull cyfathrebu ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.
Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau ac adolygu tudalennau ar y we am addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Adolygu a diweddarau'r arfau addasu. • Cyfathrebu mwy trwy sicrhau mwy o bresenoldeb ar-lein a thrwy sianeli cyfathrebu eraill. • Datblygu a chyhoeddi fersiwn o'r cynllun addasu hwn ar gyfer plant a phobl ifanc. • Cyhoeddi dadansoddiad cryno ar lefel Cymru o Ragolygon Hinsawdd 2018 y DU.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Tudalennau ar y we am addasu wedi'u diweddarau. • Arfau ac astudiaethau achos ar-lein wedi'u diweddarau. • Cyfathrebu ar-lein ac fel arall wedi gwella. • Fersiwn o'r cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'i chyhoeddi. • Taflen wedi'i chyhoeddi am Ragolygon Hinsawdd 2018 y DU.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth y cyhoedd a sefydliadau o risg o ran yr hinsawdd yn gwella. • Y cyhoedd yn fwy ymwybodol o sut i baratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid a ble mae cael gafael ar help i wneud hynny.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Tudalennau ar y we wedi'u diweddarau yn 2019. • Fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'i chyhoeddi erbyn 2020. • Taflen am Ragolygon Hinsawdd 2018 y DU wedi'i chyhoeddi arlein erbyn 2020. • Pob agwedd arall ar waith cyfathrebu'n parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<p>Gwaith ar y canlynol yn cael ei gwblhau'n brydlon heb orwario:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tudalennau ar y we am addasu • arfau ac astudiaethau achos • fersiwn o <i>Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd</i> ar gyfer pobl ifanc. <p>Adolygiad gan gymheiriaid o'r defnydd a wneir o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tudalennau ar y we am addasu, gan grwpiau defnyddwyr • Arfau addasu, ymhlith cynulleidfaoedd targed • Y fersiwn o'r cynllun ar gyfer pobl ifanc.

ST2	Integreiddio ystyriaeth o risgiau hinsawdd yn holl bolisiau a chynlluniau busnes y dyfodol Llywodraeth Cymru ac annog pob corff cyhoeddus i wneud hynny hefyd.
Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried risg yn sgil y newid yn yr hinsawdd fel un o'r gofynion ym mhroses Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig. • Adolygu a diweddarau canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar addasu. • Adolygu, os oes angen, safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio'r Pŵer Adrodd ar Addasu yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Risg yn sgil y newid yn yr hinsawdd wedi'i hystyried ym mhroses Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig. • Canllawiau statudol wedi'u diweddarau.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff risgiau o ran yr hinsawdd eu hystyried yn fwy mewn deunydd sy'n destun Asesiad Effaith Integredig, a byddant felly'n fwy tebygol o gael eu rheoli'n well. • Mae cyrff cyhoeddus yn fwy tebygol o gynllunio ar gyfer risgiau o ran yr hinsawdd os cânt eu cymell gan ganllawiau gwell. • Mae sefydliadau'n fwy tebygol o weithredu os yw Gweinidogion yn mynnu bod awdurdodau adrodd yn gorfod adrodd ynghylch addasu.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau statudol wedi'u hadolygu yn 2020. • Y broses ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. • Adolygiad o'r Pŵer Adrodd ar Addasu i'w gwblhau erbyn 2021.
Dangosyddion	<p>Gwaith ar y canlynol yn cael ei gwblhau'n brydlon heb orwario:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus • Datganiad gan y Gweinidog ynghylch y Pŵer Adrodd ar Addasu. • Adolygiad o'r defnydd a wneir o'r canllawiau statudol a'u heffaith ar gyrff cyhoeddus. • Adolygiad o ansawdd sampl o Asesiadau Effaith Integredig sydd wedi'u cwblhau. • Adolygiad o ansawdd sampl o gynlluniau corfforaethol cyrff cyhoeddus er mwyn ystyried yr hyn y maent yn ei gynnwys ynghylch addasu.

ST3	Asesu risgiau a chyfleoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd trwy gymryd rhan yn rhaglenni ymchwil y DU.
Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ag academia, cyngorau ymchwil, cyrff anlywodraethol, Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth am y risgiau a'r chyfleoedd a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd. • Helpu i ddatblygu 3ydd Asesiad y DU o Risgiau Newid Hinsawdd. • Cydweithio â Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd i fonitro'r risgiau sy'n rhan o'r 'briff gwylio'.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith ymchwil wedi'i gyflawni. • Trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd wedi'i gyhoeddi. • Risgiau wedi'u monitro.
Deiliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth well o'r risgiau i Gymru yn sgil y newid yn yr hinsawdd, er mwyn cynorthwyo i ddatblygu polisi a chamau addasu. • Risgiau'n cael eu monitro rhag ofn y bydd newid andwyol i Gymru yn digwydd yn y dyfodol.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gwaith ymchwil yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. • Disgwylir y bydd yr Asesiad nesaf o Risgiau Newid Hinsawdd yn cael ei gyhoeddi yn 2021.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y prosiectau ymchwil a gwblhawyd ar gyfer pob ymchwil yn ymwneud â'r hinsawdd, a gefnogir drwy Lywodraeth Cymru. • Crynodeb wedi'i gatalogio o'r ymchwil a gyflawnwyd. • Datganiad gan y Gweinidog ynghylch canlyniad y trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru.

ST4	Cefnogi'r gymuned ryngwladol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar lefel fyd-eang.
Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi prosiectau i helpu gwledydd eraill i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, os ydynt fel arall yn llai abl i wneud hynny. • Parhau i gydweithio â'r gymuned addasu ryngwladol i rannu arfer gorau o ran addasu a rhannu gwybodaeth am effeithiau a risg o ran yr hinsawdd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Yn ymgysylltu â rhwydweithiau rhyngwladol. • Prosiectau rhyngwladol yn cael eu cyflawni.
Deiliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rhannu gwybodaeth â phartneriaid rhyngwladol yn ei gwneud yn bosibl gwella dealltwriaeth o arfer effeithiol o ran addasu. • Mae cynorthwyo gwledydd datblygol drwy brosiectau addasu'n lleihau risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd mewn mannau eraill.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad dogfennol o sut y mae risg o ran yr hinsawdd wedi'i hystyried mewn prosiectau, gan gynnwys camau addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Dangosydd Cenedlaethol 46 – Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi.

Natur sy'n Gallu Addasu a'r Economi Wledig**AN1**

Adfer yr ucheldir a'i reoli er lles bioamrywiaeth, carbon, dŵr, y risg o lifogydd, ynni a hamddena.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, a chostio cynigion ar gyfer darparu rhaglen adfer 5 mlynedd. • Cynyddu ein hymdrechion i warchod mawndiroedd rhag sychder a llifogydd, ac adfer priddoedd organig fel eu bod yn troi'n fawndiroedd gweithredol. • Bwrw ymlaen â rhaglen wedi'i blaenoriaethu o waith adfer mawndiroedd dwfn wedi'u coedwigo ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Safleoedd mawndiroedd dwfn wedi'u coedwigo, y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt, wedi cael eu hadfer ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. • <i>Mawndiroedd ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn cael eu hadfer drwy Gynlluniau Rheoli Ystâd Goetir Cyfoeth Naturiol Cymru.</i>
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Allyriadau o fawndir wedi'i ddifrodi yn cael eu lleihau. • Mae mawndiroedd sydd mewn cyflwr ecolegol da yn fwy cydnerth i'r newid yn yr hinsawdd ac yn helpu i reoli llif dŵr, gan osgoi achosion o orlifo a sicrhau llif sylfaenol yn ystod cyfnodau o sychder.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen barhaus o safleoedd wedi'u blaenoriaethu.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwr safleoedd mawndiroedd dwfn wedi'u coedwigo sydd wedi'u hadfer ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. • Nifer yr hectarau o fawndiroedd dwfn wedi'u coedwigo sydd wedi'u hadfer er mwyn darparu cynefin mawndir. • Adolygiad o gynnwys Adroddiadau a Chynlluniau Rheoli Asedau'r Ystâd Goetir drwy Cyfoeth Naturiol Cymru. • Nifer y cynlluniau sy'n galluogi atebion sy'n seiliedig ar natur.

AN2

Cynyddu'r canopi coed a phlannu coetir mewn lleoedd da er mwyn ychwanegu at werth gwasanaethau ecosystem.

<p>Is-gam/Is-gamau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Annog integreiddio coetir â defnydd tir arall er mwyn iddo allu addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Gwneud yn fawr o fanteision addasu wrth ddylunio Rhaglen Coedwig Genedlaethol y Prif Weinidog. • Defnyddio'r fframwaith statudol a'r fframwaith polisi yng Nghymru i ehangu coetiroedd mewn lleoedd priodol. • Parhau i ddod â safleoedd arbennig, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a chynefinoedd â blaenoriaeth o dan reolaeth ffafriol ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. • Hyrwyddo'r defnydd o i-tree Eco ac arfau tegyg. • Hybu cydnerthedd i allu gwrthsefyll plâu a chlefydau, a datblygu a chynnal cofrestr risg o blâu a chlefydau a'u bygythiad i iechyd coed yng Nghymru.
<p>Allbwn/Allbynnau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff coetiroedd eu diogelu a'u gwella a chaiff y manteision a'r gwasanaethau ecosystem cysylltiedig eu hyrwyddo fel ased ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Caiff Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt, eu hadfer ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. • Bydd bioamrywiaeth Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnal a'i gwarchod, a'i gwella hefyd os yw hynny'n briodol, yn enwedig yng nghyswllt safleoedd dynodedig a chynefinoedd â blaenoriaeth. • Caiff yr angen am rywogaethau coed a strwythur oedran amrywiol ei hyrwyddo. • Caiff cofrestr risg o blâu a chlefydau ei datblygu a'i chynnal ar lefel y DU, gan rannu arbenigedd.
<p>Deiliant/Deilliannau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy o goetir yn yr ardaloedd cywir yn helpu i wrthbwysio effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae coetiroedd yn ased pwysig ar gyfer addasu, er enghraifft er mwyn gwella ansawdd yr aer, cynyddu bioddiogelwch ar ffermydd, gwarchod priddoedd, clustogi cyrsiau dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd, darparu cynefin a darparu amgylcheddau oerach. • Mae coetiroedd yn fwy cydnerth i allu gwrthsefyll plâu a chlefydau. • Caiff plâu a chlefydau eu monitro a'u canfod yn gynnar, a chaiff camau gweithredu priodol a phrydlon eu cymryd.
<p>Amserlen/Amserlenni</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau, gan gydweithio ar lefel y DU.
<p>Dangosyddion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y Cynlluniau Dylunio Coedwig sy'n cynnwys gwaith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ac amcanion rheoli ar gyfer safleoedd dynodedig a chynefinoedd â blaenoriaeth (a reolir yn ôl ardal). • Arwynebedd y coetir newydd a blennir bob blwyddyn. • Arolygon Ardal Warchod yn cael eu cynnal er mwyn monitro/canfod plâu a chlefydau. • Cysylltedd rhwydweithiau coetir. • Cydbwysedd coetiroedd o ran carbon.

AN3

Datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth i ategu gwaith mapio gwasanaethau ecosystem ar gyfer datganiadau ardal er lles gweithio ar sail lle. • Hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol cydnerth ym mhob polisi a rhaglen berthnasol, gan gynnwys datblygu rhaglen y dyfodol ar gyfer rheoli tir. • Asesu cyflwr y rhwydwaith o safleoedd gwarchoddedig a rhoi mesurau rheoli adfer priodol ar waith.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Sylfaen dystiolaeth a gwaith mapio wedi'u sefydlu ar gyfer rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystem. • Y gwaith o hyrwyddo rhwydweithiau ecolegol wedi'i gyflawni drwy ddatganiadau ardal. • Cyflwr y rhwydwaith o safleoedd gwarchoddedig wedi'i asesu. • Mesurau rheoli adfer wedi'u sefydlu.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau eu gwella'n raddol fel eu bod yn parhau i hybu bioamrywiaeth ac i ddarparu gwasanaethau ecosystem pwysig yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Datganiadau ardal yn cael eu hailadrodd am y tro cyntaf erbyn mis Mawrth 2020. • Yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y datganiadau ardal sydd ar gael gyda dolenni cyswllt â haenau mapio'n ymwneud â chydnerthedd a gwasanaethau ecosystem. • Nifer y cynlluniau sy'n galluogi atebion sy'n seiliedig ar natur. • Canran y rhwydwaith o safleoedd gwarchoddedig sydd mewn cyflwr ffafriol. • Arwynebedd y cynefin sydd wedi'i adfer.

AN4

Diogelu ein cynefinoedd naturiol rhag y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynnol.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol Prydain Fawr a rhoi ei champau gweithredu ar waith. • Ymgorffori mesurau bioddiogelwch mewn cynigion morol er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol morol. • Cydlynu gwaith a gosod blaenoriaethau sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol a chodi ymwybyddiaeth ohonynt yng Nghymru trwy Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru. • Cyflwyno cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymateb i rywogaethau estron goresgynnol newydd. • Rhoi rhwymedigaethau Rheoliadau'r UE ynghylch Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar waith.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth eang o'r risgiau a'r effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynnol. • Mae cynigion morol yn cynnwys mesurau bioddiogelwch er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. • Cydlynu a chydweithio gwell o ran materion sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol yn digwydd ar lefel Cymru a'r DU ac ar lefel ryngwladol. • Y polisi ynghylch rhywogaethau estron goresgynnol wedi'i integreiddio yn yr agendâu ehangach ar gyfer bioddiogelwch a chydnerthedd ecosystemau. • Deddfwriaeth ar waith sy'n pennu'r troseddau a'r cosbau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau'r UE ynghylch Rhywogaethau Estron Goresgynnol.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o ffafrio rhywogaethau estron goresgynnol, a fydd yn arwain at fwy o rywogaethau newydd ac at ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu yn ecosystemau tirol a morol Cymru. Bydd y camau gweithredu hyn yn cynorthwyo ecosystemau i wrthsefyll bygythiadau yn sgil y newid yn yr hinsawdd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau, gan gydweithio ar lefel y DU.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith arweiniol ar waith ar gyfer mentrau lliniaru, rheoli neu ddileu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. • Cynlluniau Gweithredu 'Pathway' ar waith. • Cynlluniau wrth gefn ar waith er mwyn gallu ymateb yn sydyn i achosion o dresmasu gan rywogaethau estron goresgynnol newydd o bwys. • Nifer y cynigion morol sy'n cynnwys mesurau bioddiogelwch er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

AN5

Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydroddaearegol i leihau'r risg o lifogydd a gwella ansawdd a swm dŵr.

<p>Is-gam/Is-gamau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio'r sylfaen dystiolaeth a'r trefniadau cydweithio sy'n cael eu datblygu trwy ddatganiadau ardal i gyflawni ymyriadau wedi'u targedu mewn dalgylchoedd. • Hyrwyddo arferion amaethyddol ac amgylcheddol da i wneud pridd a dŵr yn fwy cydnerth. Bydd hynny'n cynnwys cynlluniau da ar gyfer rheoli pridd a maethynnau. • Rhoi ein Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar waith. • Hyrwyddo Safon Coedwigaeth y DU a manteision ardystio drwy Gynllun Ansawdd Coetiroedd y DU, gan ddenu mwy i reoli eu coedwigoedd yn gynaliadwy a dylunio coetiroedd newydd, gan ddiogelu pridd a dŵr. • Hyrwyddo'r flaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i gyflwyno ymyriadau mwy naturiol a dulliau gweithredu'n ymwneud â dalgylchoedd, er mwyn helpu i wella cydnerthedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.
<p>Allbwn/Allbynnau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymyriadau sydd wedi'u targedu wedi'u rhoi ar waith. • Arferion amaethyddol ac amgylcheddol yn cael eu hyrwyddo'n fwy helaeth. • Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'u rhoi ar waith. • Mwy o waith rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy'n digwydd a choetiroedd newydd yn cael eu dylunio'n dda. • Pridd a dŵr yn cael eu rheoli'n well. • Y perygl o lifogydd yn cael ei leihau drwy reoli llifogydd yn naturiol.
<p>Deilliant/Deilliannau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwyddys fod defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur yn fesur effeithiol o ran addasu i'r risgiau a achosir gan yr effeithiau hyn. • Mwy o ganopi coetir sy'n cyd-fynd â Safon Coedwigaeth y DU, a choetir sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy. • Yn gweithredu i leihau ac arafu llif penllanw, ac felly'n lleihau'r risg bod amddiffynfeydd eraill yn methu neu'n cael eu gorlifo.
<p>Amserlen/Amserlenni</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau.
<p>Dangosyddion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arwynebedd y coetir a gaiff ei reoli'n unol â Chynllun Ansawdd Coetiroedd y DU. • Arwynebedd y coetir newydd a gefnogwyd drwy grantiau. • Nifer y cynlluniau sy'n galluogi atebion sy'n seiliedig ar natur. • Nifer y cynlluniau rheoli llifogydd yn naturiol a/neu'r cynlluniau hybrid drwy gyllid grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ar yr amod mai prif amcan y cynlluniau yw lleihau'r perygl o lifogydd i eiddo.

AN6	<p>Addasu i'r newid yn yr hinsawdd trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru newydd, gan greu a chynnal set o fesurau lleihau allyriannau amaethyddol ac addasu i gefnogi ymateb y diwydiant ffermio i'r newid yn yr hinsawdd.</p>
Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio adolygiadau o dystiolaeth, a gynhaliwyd gan Climate Smart Agriculture a'r Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig, i helpu i lywio a datblygu polisi amaeth y presennol a'r dyfodol ynghylch addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Sefydlu Gweithgor Llygredd Amaeth a Newid yn yr Hinsawdd yn Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu polisi a chamau gweithredu sy'n hybu gwaith addasu yn y sector amaeth. • Ymgorffori adborth o'r ymgynghoriad ynghylch Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. • Ei gwneud yn bosibl i egwyddorion Gwerthoedd Brand Cynaliadwy ar gyfer cynhyrchu bwyd gael eu rhoi ar waith ar lefel ffermydd. • Cydweithio ag academyddion i wella gwybodaeth a rhannu dealltwriaeth ynghylch addasu ym maes amaeth.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Polisi syml a hygyrch newydd wedi'i ddatblygu sy'n cydnabod ac yn hybu'r amgylchedd cyfnewidiol y mae ein ffermwyr yn rheoli tir ynddo. • Diwygio neu adolygu'r polisi cyfredol fel ei fod yn cynnwys cymorth o ran buddsoddi er mwyn cymhell pobl i fanteisio ar y peiriannau a'r dechnoleg ddiweddaraf. • Defnyddio cyngor a rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth Llywodraeth Cymru er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y newid yn yr hinsawdd ym maes amaeth ac annog newidiadau mewn ymddygiad ac arferion.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Risgiau i amaeth oherwydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar gnydau a da byw'n cael eu lleihau. • Darparu atebion sy'n seiliedig ar ecosystemau er mwyn cyfrannu at liniaru effaith gymdeithasol y newid yn yr hinsawdd. • Cynnal a datblygu cynefinoedd er mwyn cynnal bioamrywiaeth, gan alluogi rhywogaethau i fudo a chyfrannu ar yr un pryd at gyfyngu ar ledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith modelu'r Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig er mwyn asesu cyfraniad gwaith rheoli tir at leihau'r risg yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

AN7

Cynnal y rhaglen Galluoedd, Addasrwydd a Hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi mapiau galluoedd amaethyddol gan ddefnyddio setiau data Rhagolygon Hinsawdd y DU (2009 a 2018). • Aseu addasrwydd gwahanol gnydau dan amryw senarios o ran newid yn yr hinsawdd. • Nodi anghenion y dyfodol o ran ymchwil ac addasu ar gyfer defnydd tir.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Mapiau galluoedd amaethyddol wedi'u datblygu. • Addasrwydd gwahanol gnydau mewn amryw senarios o ran hinsawdd yn y dyfodol wedi'i asesu. • Ymchwil newydd ynghylch addasu ac anghenion newydd o ran addasu wedi'u nodi.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth well o'r modd y bydd y risgiau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau a data sy'n cynorthwyo rheolwyr tir i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Mehefin 2018 – Mehefin 2020.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Mapiau galluoedd amaethyddol dan Ragolygon Hinsawdd y DU 2018. • Mapiau potensial cnydau dan Ragolygon Hinsawdd y DU 2018. • Y camau nesaf ac ymchwil ynghylch addasu ac anghenion o ran addasu wedi'u nodi.

Gwarchod ein Harfordiroedd a'n Moroedd

MC1

Gwneud cynefinoedd a threftadaeth ym mharthau arfordirol Cymru yn fwy cydnerth rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

<p>Is-gam/Is-gamau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Deall ansawdd a nifer y cynefinoedd presennol yn y parth arfordirol a chreu rhaglen i ddarparu cynefinoedd cydbwysu ledled Cymru. • Caiff cynefinoedd eu cydbwysu yn y tymor hir yn unol ag oes y Cynlluniau Rheoli Traethlin. • Sicrhau bod cynlluniau a pholisïau perthnasol (fel Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru) yn ystyried y dreftadaeth ddiwylliannol danddwr.
<p>Allbwn/Allbynnau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Polisiâu Cynlluniau Rheoli Traethlin 2005-2025 yn cael eu gweithredu. • Rhaglen cydbwysu cynefinoedd wedi'i sefydlu. • Cynlluniau a pholisïau sy'n ystyried y dreftadaeth ddiwylliannol.
<p>Deilliant/Deilliannau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i gynefinoedd a threftadaeth ar hyd arfordiroedd Cymru yn cael ei reoli. • Mwy o ymwybyddiaeth o'r amgylchedd hanesyddol, a fydd yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn helpu i atal niwed eilaidd a chamaddasu. • Trefniadau gwell ar gyfer gweithio ar draws sectorau.
<p>Amserlen/Amserlenni</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwaith o weithredu polisiâu Cynlluniau Rheoli Traethlin yn mynd y tu hwnt i'r cyfnod adrodd ar gyfer <i>Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd</i> (2025). • Mae'r rhaglen cydbwysu cynefinoedd yn parhau. Mae popeth arall yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
<p>Dangosyddion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad dogfennol o'r dull o ymdrin ag adroddiadau Cynlluniau Rheoli Traethlin, sy'n ymwneud â risg o ran yr hinsawdd. • Adolygiad o waith cydbwysu cynefinoedd. • Cyfran y polisiâu Cynlluniau Rheoli Traethlin sydd wedi'u gweithredu. • Nifer y prosiectau creu cynefinoedd. • Cyfran y cynlluniau arfordirol ac ynddynt atebion sy'n seiliedig ar natur. • Nifer y cynlluniau a'r polisiâu perthnasol sy'n ystyried y dreftadaeth ddiwylliannol. • Adolygiad o sampl o bolisiâu er mwyn ystyried yr hyn y maent yn ei gynnwys ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

MC2**Diweddaru polisi a rhoi arweiniad ar addasu'r arfordir.**

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddaru a chyflwyno Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. • Datblygu Pecyn Cymorth newydd ar gyfer Addasu'r Arfordir a chyfathrebu amdano. • Ymgysylltu â Chanolfan Monitro Arfordir Cymru sydd newydd gael ei ffurfio.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i chyhoeddi. • Y Pecyn Cymorth newydd ar gyfer Addasu'r Arfordir wedi'i gyhoeddi.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd pecynnau cymorth a chanllawiau polisi newydd yn darparu modd i eraill gyflawni camau gweithredu ar sail effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ein harfordiroedd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Y Pecyn Cymorth ar gyfer Addasu'r Arfordir i'w gwblhau erbyn diwedd 2021.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Y Pecyn Cymorth ar gyfer Addasu'r Arfordir wedi'i lunio ac astudiaethau achos wedi'u cynnal o'r defnydd a wneir ohono gan gymunedau (e.e. Grwpiau Arfordirol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ati). • Diweddariadau ynghylch y gwaith o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. • Diweddariadau gan Ganolfan Monitro Arfordir Cymru ac ynghylch Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

MC3

Gwella cyflwr yr ecosystem forol ehangach er mwyn iddi allu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru. • Gwella cyflwr nodweddion mewn safleoedd dynodedig. • Parhau i weithio tuag at sicrhau a chynnal statws amgylcheddol da yn yr amgylchedd morol.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Parthau Cadwraeth Morol yn cael eu nodi er mwyn ymgorffori'r cynefinoedd dyfnach oddi ar y lan a'r cymunedau y maent yn eu cynnal. • Dull gorfodi'n cael ei weithredu yng nghyswllt yr amgylchedd morol, sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan wybodaeth.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd dulliau o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (a safleoedd dynodedig eraill) drwy'r Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn ystyried yr ymchwil ddiweddaraf ynghylch ecosystemau morol, ac felly'n lleihau risgiau o ran yr hinsawdd i'r ecosystemau hynny. • Bydd gwaith gorfodi yng nghyswllt yr amgylchedd morol yn gwarchod ecosystemau morol ymhellach.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<p>Bydd newidiadau yng nghyflwr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a nodweddion yn cael eu monitro drwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol; • Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru; • Adroddiadau Blynyddol dan y Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig; ac • Adroddiadau Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. <p>Nifer yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sydd mewn cyflwr ffafriol.</p>

MC4**Cynnal ymchwil i ddeall yn well effaith y newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau morol, gwasanaethau ecosystem a threftadaeth forol.**

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar ymchwil i ddysgu mwy am effaith dŵr cynhesach ar stociau pysgod ac ecosystemau, gan gynnwys effeithiau ar glefydau pysgod a dyframaethu. • Ymchwil i gyfleoedd i'r diwydiant pysgota arallgyfeirio a/neu gynyddu gwerth gweithgareddau presennol a chynllunio at y dyfodol. • Pennu llinell sylfaen cyflwr yr amgylchedd tanddwr hanesyddol a monitro newidiadau posibl drwy, er enghraifft, geisio ymgorffori gwaith monitro amgylcheddol yng nghyswllt y dreftadaeth ddiwylliannol danddwr mewn amodau trwyddedu morol.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Asideiddio mewn cefnforoedd – ymchwil. • Arallgyfeirio yn y diwydiant pysgota – ymchwil. • Yr amgylchedd hanesyddol tanddwr – ymchwil. • Cyflwr sylfaenol y dreftadaeth ddiwylliannol danddwr wedi'i sefydlu a newidiadau'n cael eu monitro.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth well am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau morol a gwasanaethau ecosystem. • Bydd y sawl sy'n ymwneud â rheoli ecosystemau morol a'r dreftadaeth forol yn fwy gwybodus, a byddant felly'n ystyried risgiau o ran yr hinsawdd wrth wneud penderfyniadau.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd ymchwil yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch (2022).
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Rhestrau ac adroddiadau ar gael ynghylch allbynnau ymchwil. • Nifer yr asedau hanesyddol tanddwr y mae eu cyflwr sylfaenol wedi'i gofnodi ac yn cael ei fonitro.

Cadw'n Iach

SH1	Deall yn well y risgiau a ddaw yn sgil tymereddau uwch i iechyd a lles y cyhoedd.
Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cael mwy o wybodaeth am dueddiadau a rhagolygon i ddeall difrifoldeb y risg i iechyd y cyhoedd. • Mwy o gydweithio a gweithio cydgysylltiedig i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol. • Parhau i gyhoeddi'r cyngor am dymereddau uwch mawr yng Nghantlaw lechyd Cyhoeddus Cymru am Dywydd Eithafol.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfraniad Cymru drwy lechyd Cyhoeddus Cymru at gwblhau'r gwaith o ailfodelu data lechyd Cyhoeddus Lloegr am dywydd eithafol. • lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Canllaw wedi'i ddiwygio am Dywydd Eithafol. • Data'n cael ei rannu'n well ar draws cyrff iechyd cyhoeddus yng Nghymru.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd canllawiau a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd ac i asiantaethau am risg ac am ymatebion Llywodraeth Cymru/lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth y DU/lechyd Cyhoeddus Lloegr i dywydd eithafol. • Lleihau risg i aelodau'r cyhoedd, a lleihau'r graddau y maent yn agored i niwed, o ganlyniad i dywydd eithafol megis tywydd poeth, llifogydd, sychder ac ati.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd ymchwil i dywydd eithafol yn cael ei chwblhau yn ystod 2021. • Mae data'n cael ei gasglu o hyd. • Bydd y gwaith o gyhoeddi canllawiau'n ymateb i ddiwyddiadau'n ymwneud â thywydd eithafol yn y dyfodol (a bydd y dull gweithredu'n cael ei ddiwygio o 2021 ymlaen).
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Rhestrau ac adroddiadau ar gael ynghylch allbynnau ymchwil ac ynghylch y dull o gyrraedd cynulleidfaoedd targed a chofnodi defnydd. • Diweddariadau gan lechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch y Canllaw am Dywydd Eithafol yn cael eu monitro. • Nifer y Cynlluniau Byrddau lechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig) sydd â ffocws clir ar gynllunio ar gyfer risgiau o ran yr hinsawdd.

SH2

Parhau i daclo tlodi tanwydd trwy Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd 25,000 yn rhagor o gartrefi wedi elwa ar y Rhaglen Cartrefi Clyd erbyn 2021. • Cwblhau'r ymchwil i fesur effeithiau cynlluniau Nyth ac Arbed ar ganlyniadau iechyd erbyn 2021. • Datblygu cynigion newydd i drechu tlodi tanwydd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • 25,000 o gartrefi wedi elwa ar y Rhaglen Cartrefi Clyd. • Ymchwil i gynlluniau Nyth ac Arbed wedi'i chwblhau. • Cynigion newydd ynghylch tlodi tanwydd wedi'u datblygu.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Er ei bod yn bosibl y bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at fanteision o ran lleihau oerfel, bydd Cymru yn cymryd camau pellach i ddileu tlodi tanwydd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • 2021.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad dogfennol o ddeunydd o'r Rhaglen Cartrefi Clyd a phrosiectau Nyth ac Arbed. • Adolygiad dogfennol o gynnwys y cynigion newydd ynghylch tlodi a chanllawiau cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Nifer y cartrefi sy'n elwa ar y Rhaglen Cartrefi Clyd. • Nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.

SH3

Diweddarau a diwygio cynlluniau a chyngor yn unol â'r ymchwil i deall yn well risg tywydd eithafol i iechyd a gofal cymdeithasol.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Deall yn well y risgiau y gall newidiadau tymor hir i dywydd eithafol esgor arnynt o ran darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. • Gwella cynlluniau wrth gefn.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiadau Risg Cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru wedi'u diweddarau. • Y matrices newid yn yr hinsawdd ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG yn parhau i gael ei adolygu. • Adeiladau newydd ystâd y GIG yn gydnerth o ran yr hinsawdd.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd deall yn well yr effeithiau y gallai'r newid yn yr hinsawdd eu cael yn y dyfodol, ynghyd â gwella cynlluniau wrth gefn, yn lleihau'r risgiau i ystâd y GIG a'r graddau y bydd ystâd y GIG yn agored i niwed o ganlyniad i dywydd eithafol.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad dogfennol o'r hyn y mae'r GIG wedi'i ddysgu o ddigwyddiadau'n ymwneud â thywydd eithafol sydd wedi effeithio ar gyfleusterau ei ystâd. • Astudiaethau achos o sut y mae'r newid yn yr hinsawdd wedi'i ystyried mewn datblygiadau newydd ar gyfer y GIG. • Nifer cyfleusterau'r GIG sydd wedi cwblhau'r matrices newid yn yr hinsawdd – ac enghreifftiau o newidiadau o ganlyniad i wneud hynny.

SH4

Sicrhau yr ystyrir risgiau'r newid yn yr hinsawdd wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol i wella ansawdd aer yng Nghymru.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi Cynllun Aer Glân i Gymru 2018 ar waith. Mabwysiadu'r Gyfarwydddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol. Darparu gwybodaeth a rhagolygon am ansawdd aer ar gyfer y cyhoedd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Ansawdd yr aer yng Nghymru yn well. Canllawiau cyhoeddus gwell yn cael eu cyhoeddi.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Caiff y risg y gallai'r newid yn yr hinsawdd waethygu ansawdd yr aer ei lliniaru drwy wella ansawdd yr aer yn gyffredinol yng Nghymru.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Ymrwymadau'r DU i leihau allyriadau yn y dyfodol ar gyfer 2020. Eraill yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Aer Glân i Gymru. Ymrwymadau i leihau allyriadau wedi'u cyflawni.

SH5

Deall yn well y risgiau a ddaw yn sgîl pathogenau a gludir gan fector.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fonitro porthladdoedd a meysydd awyr am fogsitos. Codi ymwybyddiaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd o glefyd Lyme. Deall yn well y risg gynyddol a ddaw yn sgîl pathogenau a gludir gan fectorau.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith monitro porthladdoedd a meysydd awyr er mwyn canfod fectorau ecsotig wedi'i gyflawni. Gwaith cyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o glefyd Lyme wedi'i gyflawni. Gwaith ymchwil wedi'i gyflawni i'r risg gynyddol, sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, a ddaw yn sgîl pathogenau a gludir gan fectorau.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd monitro porthladdoedd a meysydd awyr er mwyn canfod fectorau ecsotig yn helpu i leihau'r risg i iechyd y cyhoedd yn sgîl y clefyd cysylltiedig y maent yn ei gludo. Bydd cyngor gwell a pharhaus i'r proffesiwn gofal iechyd yn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer sefyllfa pan fydd clefydau o'r fath yn fwy cyffredin, a bydd gwybodaeth well o gymorth i wneud penderfyniadau gwell er mwyn lleihau risg yn y dyfodol.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Mae fectorau'n cael eu monitro'n barhaus. Bydd gwaith cyfathrebu ynghylch clefyd Lyme yn parhau. Bydd ymchwil yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Adroddiadau'n dilyn gwaith monitro fectorau. Gwaith monitro a dangosyddion yn ymwneud â chlefyd Lyme. Rhestrau ac adroddiadau ar gael ynghylch allbynnau ymchwil ac ynghylch y dull o gyrraedd cynulleidfaoedd targed a chofnodi defnydd.

Cartrefi a Llefydd Diogel

HP1

Sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru'n chwarae rhan bwysig o ran hwyluso twf cynaliadwy ac yn helpu i'n cryfhau i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a chyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru. • Cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr. • Adolygu ar gyfer y dyfodol y polisi a'r canllawiau cynllunio ar reoli risg llifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15. • Defnyddio mwy ar seilwaith gwyrdd a gwella'i ansawdd trwy atebion sy'n seiliedig ar natur.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi. • Nodyn Cyngor Technegol 15 wedi'i adolygu ynghyd â chanllawiau sydd wedi'u hailwampio. • Nifer fwy o atebion sy'n seiliedig ar natur mewn prosiectau cynllunio.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd system gynllunio well yn lleihau risg o ran yr hinsawdd trwy wella penderfyniadau ynghylch safleoedd datblygu a seilwaith mwy gwyrdd. • Bydd hynny'n llywio newid mwy systemig yn y system gynllunio er mwyn ystyried risgiau o ran yr hinsawdd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'w gwblhau erbyn 2020. • Ymgynghoriad ynghylch Nodyn Cyngor Technegol 15 yn 2019. • Mwy o ddefnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur yn parhau. • Canllawiau ynghylch Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr i'w cyhoeddi erbyn 2025.
Dangosyddion	<p>Adolygiad dogfennol a dyfyniadau/arfer da o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi, cynigion a chanllawiau'n ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol • Polisiâu, cynigion a chanllawiau'n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Lleol. • Apeliadau cynllunio • Mentrau seilwaith gwyrdd, sy'n cynorthwyo gwaith addasu • Nifer y caniatadau cynllunio mewn parthau perygl o lifogydd. <p>Nifer y prosiectau seilwaith gwyrdd a weithredir sy'n cyfrannu'n glir at addasu i'r newid yn yr hinsawdd.</p>

HP2

Dylanwadu ar ddyluniad cartrefi ac adeiladau i'w diogelu rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu Rhan L (effeithlonrwydd ynni) y Rheoliadau Adeiladu i leihau'r risg o orgynhesu. • Sicrhau bod cyfleoedd i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried wrth i Lywodraeth Cymru ymchwilio i ddatgarboneiddio stoc dai Cymru. • Sicrhau bod holl raglenni'r dyfodol ar gyfer adolygu'r Rheoliadau Adeiladu yn ystyried yr angen i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Cwmnïau dŵr i leihau'r dŵr sy'n gollwng.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Y Rheoliadau Adeiladu yn cael eu hadolygu fesul pwnc dros gyfnod o 5 mlynedd yn y dyfodol. Adolygiad o Ran L wedi'i gwblhau. • Ymchwil i ddatgarboneiddio ac addasu tai wedi'i chwblhau. • Y dŵr sy'n gollwng wedi lleihau 15%, sy'n golygu bod modd cael gafael ar ddŵr yn ystod cyfnodau o sychder.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd mesurau effeithlonrwydd ynni yn y dyfodol yn osgoi, ac efallai'n lliniaru, y risg fwy o orgynhesu o ran yr hinsawdd, oherwydd bod y Rheoliadau Adeiladu yn well. • Bydd mwy o wybodaeth am opsiynau addasu tai yn llywio polisi yn y dyfodol er mwyn lleihau risgiau o ran yr hinsawdd yn y cartref.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a gosod Rheoliadau Adeiladu Rhan L newydd erbyn gwanwyn 2020. (Gellid cynnal adolygiadau o Reoliadau Adeiladu eraill yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.) • Ymchwil i ddatgarboneiddio ac addasu tai'n parhau. • Mae Ofwat wedi pennu targed gofynnol, sef lleihau'r dŵr sy'n gollwng 15% erbyn 2025.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad dogfennol o Ran L ac adolygiad o Reoliadau Adeiladu yn y dyfodol i weld sut y maent yn hybu dylunio er mwyn annog camau i reoli risg. • Adolygiad dogfennol o Ymchwil i Ddatgarboneiddio'r Stoc Dai. • Adroddiadau Ofwat ynghylch lleihau'r dŵr sy'n gollwng.

HP3

Gwella'r mesurau i amddiffyn cartrefi a chymunedau rhag y risg o lifogydd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Ei gwneud yn ofynnol yn y dyfodol bod pob datblygiad yng Nghymru (heblaw anheddau sengl sy'n llai na 100m²) yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gorfodol Systemau Draenio Cynaliadwy. • Cyflwyno cynlluniau tymor hir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosydd, a datblygu fframwaith cynllunio i'w rhoi ar waith yng Nghymru. • Diweddarau'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, sy'n cynnwys mesurau i amddiffyn cartrefi a chymunedau rhag llifogydd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygiadau newydd yn cael eu dylunio'n unol â safonau Systemau Draenio Cynaliadwy. • Polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosydd wedi'i sefydlu. • Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i chyhoeddi.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhoi Systemau Draenio Cynaliadwy ar waith yn cyfrannu at leihau'r cynnydd a ddisgwyllir fel arall yn y perygl o lifogydd i gartrefi a chymunedau gan ddŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd ledled Cymru. • Bydd angen i gynlluniau tymor hir ystyried y risgiau cynyddol y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu hachosi ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosydd. • Bydd Strategaeth Genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cyflwyno camau gweithredu i leihau'r risg o lifogydd arfordirol a ddisgwyllir yn y dyfodol wrth i lefel y môr godi.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Daeth Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) i rym ar 7 Ionawr 2019. Bydd rhai esemptiadau cynllunio trosiannol yn dod i ben ar 7 Ionawr 2020. • Polisi ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosydd wedi'i sefydlu erbyn 2023. • Fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei chyhoeddi yn 2020.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y Systemau Draenio Cynaliadwy a gymeradwywyd, a gofnodwyd gan Gyrrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. • Adolygiad o'r Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr a luniwyd, ac enghreifftiau o sut y maent yn mynd i'r afael â risgiau o ran yr hinsawdd. • Fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i llunio, ac adroddiadau blynyddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y modd y caiff ei gweithredu. Enghreifftiau o'r modd y mae camau gweithredu'r Strategaeth yn mynd i'r afael â risgiau o ran yr hinsawdd. • Enghreifftiau, allan o Gynlluniau Rheoli Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chynlluniau Rheoli Basn Afon, o gamau addasu i'r hinsawdd er mwyn amddiffyn cartrefi a chymunedau.

HP4

Meithrin capasiti a chynnal gwaith addasu ar lefel y gymuned.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ariannu prosiectau cymunedol ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd (fel y rheini a gefnogir gan ddull presennol Cymru o wario arian cyfrifon segur drwy'r Loteri Fawr).
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Prosiectau cymunedol yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd wedi'u hariannu a'u cyflawni.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Caiff ymwybyddiaeth o risgiau a phroblemau yn sgil y newid yn yr hinsawdd ei chodi ar lefel gymunedol. Caiff camau gweithredu bach o ran addasu eu cyflawni er mwyn lleihau risgiau lleol.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad dogfennol o'r ymarferion gwerthuso prosiect a gynhaliwyd ar gyfer Adfywio Cymru a Creu Eich Lle.

HP5

Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi gwaith meithrin capasiti ac addasu ar lefel rhanbarth.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddysgu am risg o ran yr hinsawdd ar lefel rhanbarth. Nodi opsiynau addasu rhanbarthol i'w cynnal yn lleol ac i helpu i ymdopi ag effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd. Rhannu gwybodaeth ac arfer gorau â chyrrff cyhoeddus a sefydliadau eraill ledled Cymru.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Cyngor a chymorth ynghylch addasu wedi'u rhoi i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u datblygu a'u cyflwyno ac yn cynnwys camau addasu. Opsiynau addasu rhanbarthol wedi'u nodi ac arfer gorau wedi'i rannu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o ymwybyddiaeth yn y sector cyhoeddus o'r risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Sefydliadau'r sector cyhoeddus yn fwy cydnerth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Yn parhau hyd ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth ddogfennol ac adroddiadau o brosiectau addasu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Tystiolaeth o ddysgu o'r prosiectau, sy'n llywio asesiadau a chynlluniau llesiant gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwerthusiad o brosiectau addasu sy'n mynd i'r afael â'r risgiau o ran yr hinsawdd a gafodd eu nodi gan y gwaith rhanbarthol.

Gofalu am yr Amgylchedd Hanesyddol

HE1

Llunio a chyhoeddi Cynllun Addasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Newid yn yr Hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthu'r cynllun a rhoi cyhoeddusrwydd iddo. • Rhanddeiliaid i ymgysylltu â gwleidyddion a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch, er mwyn sicrhau adnoddau a chamau gweithredu ymarferol.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun addasu wedi'i gwblhau ac ar waith ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. • Strategaeth gyfathrebu wedi'i datblygu. • Gweithgareddau ymgysylltu wedi'u cynnal.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Codi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu hachosi i'r amgylchedd hanesyddol. • Darparu fframwaith strategol ar gyfer camau addasu.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Y cynllun i'w gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2020. • Y strategaeth gyfathrebu i'w datblygu erbyn mis Mai 2020. • Gwaith ymgysylltu'n parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Y Cynllun Addasu Sector wedi'i gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2020. • Y strategaeth gyfathrebu wedi'i gweithredu. • Adolygiad o rychwant ac effaith gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

HE2

Deall yn well y bygythiadau a'r cyfleoedd i'r amgylchedd hanesyddol o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Mapio gofodol – Creu gweithgor i ddatblygu'r prosiect mapio gofodol gwell er mwyn nodi a blaenoriaethu asedau sydd mewn perygl a chreu cyswllt â threfniadau ar gyfer monitro asedau sy'n cael eu targedu. • Ymchwil – Defnyddio'r blaenoriaethau ymchwil a nodwyd yn y Cynllun Addasu Sector i helpu i ddylanwadu ar raglenni ymchwil ac ymchwilio cyrff partner yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini a gefnogir gan arian a grantiau'r llywodraeth. • CHERISH – Rhannu'r wybodaeth a gafwyd trwy'r prosiect a defnyddio'r allbynnau i benderfynu ar gamau'r dyfodol. • Cyfnewid gwybodaeth – i) Gweithio gydag eraill i geisio arian a sefydlu grŵp cyfnewid gwybodaeth lle gall ymchwilyr ac ymarferwyr rannu syniadau, gwybodaeth ac arfer da a helpu i nodi blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y dyfodol; ii) Parhau i gymryd rhan mewn grwpiau sydd wedi'u sefydlu ar lefel y DU, gan gynnwys Fit for the Future a Gweithgor Addasu'r Amgylchedd Hanesyddol.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Grŵp llywio mapio gofodol wedi'i sefydlu. • Y Cynllun Addasu Sector wedi dylanwadu ar raglenni ymchwil ac ymchwilio. • Gweithgareddau a digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Sylfaen dystiolaeth well ar gyfer strategaethau amddiffyn, penderfynu ac addasu statudol. • Darparu data a chynlluniau ar gyfer safleoedd targed er mwyn helpu i ddatblygu strategaethau rheoli.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Grŵp llywio mapio gofodol wedi'i sefydlu. • Adolygiad o raglenni ymchwil ac ymchwilio. • Adolygiad o weithgareddau a digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth.

HE3**Datblygu methodolegau, arfau a chanllawiau sy'n angenrheidiol i wella'r gallu i addasu.**

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Astudiaethau achos – datblygu a chyhoeddi astudiaethau achos i nodi'r materion allweddol, rhoi prawf ar opsiynau o ran trefniadau rheoli, a dylanwadu ar arfer da e.e. strategaethau adfer llystyfiant a gwrthgloddiau ar ôl digwyddiadau fel tanau gwyllt neu erydu. • Canllawiau – cyhoeddi a rhannu canllawiau e.e. ar ddatblygu cydnerthedd adeiladau traddodiadol a hanesyddol i allu wrthsefyll llifogydd. • Gwaith traws-sector – a ddylai gynnwys ystyriaethau i'r amgylchedd hanesyddol mewn datganiadau polisi, cynlluniau a chodau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Traethlin, Cod Ymarfer CIRIA a chanllawiau ar gydnerthedd eiddo i allu wrthsefyll llifogydd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau ac astudiaethau achos wedi'u cyhoeddi. • Gweithgareddau rhannu canllawiau. • Datganiadau polisi, cynlluniau a chodau cenedlaethol a lleol sy'n cynnwys ystyriaeth i'r amgylchedd hanesyddol.
Deiliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneud asedau hanesyddol yn fwy cydnerth, gwella gwaith adfer ar ôl digwyddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, a rhwystro difrod eilaidd a chamaddasu. • Datblygu a gweithredu datganiadau polisi, cynlluniau a chodau cenedlaethol a lleol sy'n gwneud asedau treftadaeth yn fwy cydnerth.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad o'r graddau y caiff astudiaethau achos a chanllawiau a gyhoeddir ar wefan Cadw eu defnyddio. • Nifer y datganiadau polisi, cynlluniau a chodau cenedlaethol a lleol perthnasol sy'n cynnwys ystyriaeth i'r amgylchedd hanesyddol. • Adolygiad o ansawdd sampl o ddatganiadau polisi, cynlluniau a chodau cenedlaethol a lleol perthnasol er mwyn ystyried yr hyn y maent yn ei gynnwys ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

HE4

Gwneud yr amgylchedd hanesyddol yn fwy cydnerth trwy gymryd camau er mwyn ymateb ac addasu i'r risgiau.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor cyn ymgeisio – rhoi cyngor ar ddyluniad cynigion addasu a sut i'w rhoi ar waith, gan gynnwys cynlluniau lleddfu llifogydd, i helpu i wneud yn siŵr bod risgiau a chyfleoedd posibl i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu hystyried. • Cynlluniau rheoli treftadaeth – helpu i ddatblygu cynlluniau i reoli ac addasu treftadaeth e.e. ar gyfer busnesau twristiaeth treftadaeth. • Monitro a chofnodi – rhoi rhaglenni ar waith a chefnogi camau i fonitro a chofnodi cyflwr yr asedau hanesyddol sydd mewn perygl.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Camau addasu sydd wedi'u dylunio yn dda a'u rhoi ar waith. • Cynlluniau rheoli treftadaeth sy'n cynnwys camau addasu. • Cofnodion o asedau hanesyddol er mwyn helpu i lywio dulliau o reoli newid.
Deiliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a gweithredu cynlluniau a chamau addasu sy'n gwneud asedau treftadaeth yn fwy cydnerth.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cynigion addasu lle caiff cyngor cyn ymgeisio ei roi a lle gweithredir ar sail y cyngor hwnnw. • Nifer y cynlluniau rheoli ac addasu treftadaeth sydd wedi'u datblygu. • Nifer y rhaglenni monitro a chofnodi sydd wedi'u gweithredu.

Busnesau Llwyddiannus

SB1

Gwneud mwy i ddeall y risgiau i fusnesau a ddaw yn sgil tarfu ar seilwaith a gweithio mewn gwres.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal ymchwil ledled y DU i nodi pa sectorau diwydiannol sydd mewn perygl a nodi opsiynau posibl i fusnesau ar gyfer lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Ymchwil wedi'i chyflawni. Y bwloch mewn gwybodaeth wedi'i lenwi ynghylch y risgiau i fusnesau yn sgil tarfu ar seilwaith a gweithio mewn gwres.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth well er mwyn cyflwyno canllawiau ac arfau gwell yn y dyfodol.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> 2020.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad o ddeilliannau ymchwil.

SB2

Rhoi cymorth i fusnesau i'w helpu i addasu i risgiau'r dyfodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu gwefan, llythyr newyddion a thrydariadau Busnes Cymru fel eu bod yn rhoi cyngor perthnasol a diddorol. Cynnal gweithdai ar gyfer busnesau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Rhoi cyngor busnes 1-i-1 i gwmnïau sy'n symud tuag at baratoi cynllun addasu.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Negeseuon i fusnesau ynghylch addasu wedi'u hadolygu. Gweithdai wedi'u cynnal ar gyfer busnesau. Cymorth wedi'i roi i fusnesau sy'n datblygu cynlluniau addasu.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd rhoi cymorth i fusnesau'n helpu i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau y byddant yn eu hwynebu mewn hinsawdd yn y dyfodol ac yn eu galluogi i gael cyngor ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a bydd yn lleihau risgiau i economi Cymru yn sgil y newid yn yr hinsawdd.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Unrhyw gamau gweithredu newydd i'w hintegreiddio yn y fframwaith newydd erbyn 2021/2022.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Adborth o drafodaethau rhanddeiliaid â busnesau. Adolygiad o'r gweithdai a gynhaliwyd.

Seilwaith a Thrafnidiaeth Gydnerth

IT1

Deall yn well y risgiau i seilwaith trafndiaeth yng Nghymru yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ymchwil i drafnidiaeth yn ystyried anghenion Cymru'n llawn er mwyn gallu datblygu cymorth priodol. Gweithio gyda Highways England i bennu safonau newydd ar y newid yn yr hinsawdd ar gyfer trafndiaeth ffyrdd. Adolygu astudiaethau achos y sector trafndiaeth er mwyn rhannu arfer gorau o ran addasu i'r risgiau i drafnidiaeth yng Nghymru yn sgil y newid yn yr hinsawdd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Ymchwil i drafnidiaeth, sy'n ymwneud â'r risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd, wedi'i chyflawni ar gyfer Cymru. Safonau gwell wedi'u rhoi ar waith. Adolygiad o astudiaethau achos wedi'i gynnal ac arfer gorau wedi'i rannu.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gwybodaeth well am risgiau'r newid yn yr hinsawdd i'r seilwaith trafndiaeth yn ei gwneud yn bosibl datblygu polisi gwell yn y dyfodol. Bydd hynny wedyn yn sicrhau bod ein seilwaith trafndiaeth yn gallu cael ei addasu i'r risgiau a ragwelir.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad o'r ymchwil a gwblhawyd sy'n ymwneud â risgiau o ran yr hinsawdd. Astudiaeth ansoddol o effeithiau'r safonau newydd ar gyfer ffyrdd. Adolygiad o astudiaethau achos a'r dull o rannu arfer gorau ynghylch y risgiau o ran yr hinsawdd sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

IT2

Gwneud ein hunain yn barotach ar gyfer y risgiau niferus i rwydweithiau seilwaith cyd-ddibynnol.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau'r ymarfer peilot i wella'r ymateb brys i fygythiadau i seilwaith. Cyflwyno'r prosesau ymateb brys newydd ar gyfer seilwaith i'r holl Fforymau Cydnerthedd Lleol. Gweithio gyda chwmnïau cyfleustodau yn benodol er mwyn delio â'r risg pe bai rhwydwaith trawsyrru trydan cenedlaethol y DU yn methu.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> Prawf wedi'i roi ar y gweithdrefnau ymateb brys newydd. Y Fforymau Cydnerthedd Lleol wedi dysgu am ddulliau gwell o ymateb ar frys. Cwmnïau cyfleustodau wedi'u cynnwys yn well er mwyn deall y bygythiadau posibl i'r seilwaith o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gan Gymru y capasiti i ymateb i achosion o dywydd difrifol sy'n effeithio ar sawl system seilwaith, a fydd yn golygu ein bod yn gallu ymateb yn gyflym gan sicrhau cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> Yn parhau.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad o broses yr ymarfer peilot. Mae gan gwmnïau cyfleustodau yng Nghymru fesurau addasu ar waith.

IT3

Codi ymwybyddiaeth am lefel y risg i bontydd a phiblinellau yn sgil y newid i'r hinsawdd, a llenwi'r bylchau ymchwil i'n helpu i addasu.

Is-gam/Is-gamau	<ul style="list-style-type: none"> • Deall y bylchau mewn ymchwil ym maes erydu a sgwrio, a llenwi'r bylchau. • Deall yn well lefel y risg i bontydd a phiblinellau ledled Cymru, perchenogion y pontydd hynny a'r camau sy'n cael eu cymryd.
Allbwn/Allbynnau	<ul style="list-style-type: none"> • Y strwythurau sy'n cynnal y rhwydwaith ffyrdd strategol wedi'u hasesu. • Y strwythurau sy'n wynebu'r perygl mwyaf wedi'u nodi a'u blaenoriaethu fel eu bod yn flaenoriaeth uchel. • Safonau asesu newydd wedi'u datblygu gyda Highways England. • Ymchwil newydd wedi'i hadolygu er mwyn gwella dealltwriaeth o risg.
Deilliant/Deilliannau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cwblhau asesiad o'r pontydd a'r piblinellau y gallai'r cynnydd a ragwelir mewn llif afonydd effeithio arnynt yn fodd i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill allu ystyried pa gamau y dylent eu cymryd i ddelio â'r risg.
Amserlen/Amserlenni	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiadau sgwrio i'w cynnal yng nghyswllt pontydd, ar sail y safonau newydd, erbyn 2021.
Dangosyddion	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiad wedi'i gwblhau a'i adolygu dan y safonau asesu newydd ar gyfer sgwrio. • Adolygiad o'r gwaith a wnaed i wella'r pontydd y nodwyd eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf. • Adolygiad cryno o'r dystiolaeth newydd a gasglwyd.

Byrfoddau

BREEAM	Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau
CCA	Deddf Newid Hinsawdd 2008
CCRA	Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd
CCRAER	Adroddiad Tystiolaeth Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSC	Gallu, Addasrwydd a Hinsawdd
ERAMMP	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
FCERM	Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
IPCC	Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd
IPM	Rheolaeth Integredig ar Blâu
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SAP	Cynllun Addasu'r Sector
SMP	Cynlluniau Rheoli Traethlin
SMNR	Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
SuDS	Systemau Draenio Cynaliadwy
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
UKCCC	Pwylgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd
UKCIP	United Kingdom Climate Impacts Programme
UKCP09/UKCP18	Rhagolygon Hinsawdd y DU
WGWE	Welsh Government Woodland Estates